

Teitl y Swydd	Crëwr Cynnwys
Tîm	Cynnwys
Cyflog	£20k - £24k yn dibynnu ar brofiad

Trosolwg o'r rôl

Rydyn ni'n chwilio am Grëwr Cynnwys a fydd yn gweithio o fewn tîm cynnwys Orchard. Mae'r tîm yn grŵp egniol o Gynhyrchwyr a Chyfarwyddwyr sy'n cynhyrchu Hysbysebion, Rhaglenni Teledu, Ffilmiau hyrwyddo a chynnwys digidol ar gyfer pob sianel ddisbarthu ar gyfer cleientiaid fel BBC, S4C, Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, Guinness World Records, Gemau'r Gymanwlad Cymru, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Dŵr Cymru a llawer mwy.

Dyma gyfle i fod yn rhan o dîm sy'n ehangu, i greu cynnwys fideo a dylunio diddorol ar gyfer sianeli digidol, gyda ffocws cryf ar gyfryngau cymdeithasol.

Fel Crëwr Cynnwys, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r timau Cynhyrchu, Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata drwy gynhyrchu cynnwys fideo a chynnwys statig diddorol ar gyfer llwyfannau digidol. Fel rhan o'r rôl hon byddwch yn ffilmio ac yn golygu cynnwys fideo, ynghyd â chreu asedau digidol.

Gyda'ch gwaith o gyflwyno dyluniadau a golygiadau creadigol, byddwch yn hyrwyddo brandiau cleientiaid ac Orchard, gan gynyddu faint sy'n eu dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol ar draws sawl sianel. Gan ganolbwyntio ar gynnwys ar-lein, bydd y rôl hon yn manteisio ar gryfderau'r unigolyn creadigol sydd â dealltwriaeth dda o gynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n sefyll allan ac yn creu argraff ar y gynulleidfa darged.

Byddwch yn cydweithio ochr yn ochr â'r tîm a byddwch yn cael yr ymreolaeth i gymryd perchnogaeth o'ch creadigaethau a chyflawni gwaith rydych wirioneddol yn falch ohono! Hefyd, mae cyfleoedd datblygu gwyb yn ogystal.

I wneud cais, anfonwch gopi o'ch cv a'ch portffolio atom gyda nodyn eglurhaol byr yn amlinellu pam mai chi yw'r person gorau ar gyfer y swydd i jointheteam@thinkorchard.com erbyn dydd lau 10 Rhagfyr.

Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 14 Rhagfyr 2020.

Amdanoch **chi**

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos y sgiliau a restrir isod:

- **Gallu o ran Golygu:**

Meddalwedd Final Cut, Premiere neu Avid

- **Gallu o ran Graffeg:**

InDesign a/neu Photoshop ac After Effects

- **Gallu o ran Ffilmio:**

Y gallu i ffilmio gyda chamêrau a thechnoleg amrywiol

- **Ymwybyddiaeth Dechnegol:**

Y gallu i ddefnyddio technoleg, ymwybyddiaeth o gyfryngau cymdeithasol a sianelau digidol a dulliau allforio gofynnol.

Bydd ein hymgeisydd delfrydol hefyd yn gallu arddangos...

- Profiad blaenorol o greu cynnwys ar gyfer gwahanol sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ffilmio a golygu fideos ynghyd ag asedau statig.
- Portffolio sy'n arddangos rîl o'ch gwaith fideo / ffilmio, ynghyd ag enghreifftiau o ddylunio statig.
- Creu darluniau fector a ffeithluniau, gyda sgiliau mewn teipograffeg a chynllunio.
- Profiad o saethu fideos (e.e. pennau sy'n siarad, fideos esboniadol).
- Rhugl yn Adobe CC (InDesign, Illustrator a Photoshop) a meddalwedd ffilmiau (Premiere Pro, After Effects).
- Dealltwriaeth dda o farchnata digidol; yn benodol, byddai dealltwriaeth o strategaeth cyfryngau cymdeithasol yn fonws.
- Byddai sgiliau animeiddio yn fanteisiol, ond nid yw'n hanfodol.

PRIF werthoedd.

Bod:

Yn flaengar. Yn barchus. Yn ddychmygus. Yn ymwybodol. Yn rhagorol.

Bob amser.

Diolch.